

Memorandwm o Ddealltwriaeth Cyd Oruchwyllo

Cyflwyniad:

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (Y Ddeddf) yn gwneud nifer o newidiadau i Ddeddf yr Heddlu 1996, gan osod cyfrifoldebau statudol ar Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd (Y Comisiynwyr) mewn perthynas â chydweithio. Mae hyn yn cynnwys sefydlu trefniadau ar y cyd i oruchwyllo trefniadau cydweithio. Mae Adran 23D o'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i Gomisiynwyr ddal eu Prif Gwnstabiad yn atebol am weithredu yn unol ag amodau'r cytundeb cydweithio h.y. lle mae Heddlu A yn darparu gwasanaeth plismona i Heddluoedd A a B, rhaid i Gomisiynydd Heddlu A ddal Prif Gwnstabl Heddlu A yn atebol am ddarpariaeth y gwasanaeth hwnnw yn y ddwy ardal blismona. Rhaid i Gomisiynydd Ardal B sicrhau bod trefniadau yn eu lle iddynt allu cymryd rhan yn y gwaith o gyd oruchwyllo ei ddarpariaeth a sicrhau eu hunain bod y Prif Gwnstabl yn cael ei ddal yn atebol mewn modd priodol am y gwasanaethau a ddarperir. Mae'r broses llywodraethu wedi'i hamlinellu yn Atodiad A.

Dylid nodi na fydd trefniant cyd oruchwyllo yn diddymu'r angen i Brif Gwnstabl fod yn atebol i'r Comisiynydd eu hunain am unrhyw swyddogaethau a gyflawnir gan Swyddogion Heddlu a staff sy'n gweithredu o dan eu gorchmynion a'u cyflogaeth.

Diben y Memorandwm o Ddealltwriaeth (MoDd)

Nod y MoDd yw nodi'r amodau y bydd cyd oruchwylloeth o gytundebau cydweithio'r heddlu yn cael ei gyflawni yng Nghymru. Mae ei ffocws wedi'i gyfyngu i gydweithio rhwng Heddluoedd.

Nod y MoDd yw nodi sut y gall Comisiynwyr a Phrif Gwnstabiad:

- sefydlu cytundebau cydweithio newydd neu wneud addasiadau i gytundebau presennol
- parhau i adolygu cyfleoedd i gydweithio (i gynnwys gosod ac adolygu cerrig milltir newydd er mwyn galluogi pob parti i ystyried eu cyfraniad parhaus i bob cytundeb);
- cymeradwyo'r nodau strategol, blaenoriaethau a chynlluniau cytundebau;
- cymryd rhan mewn cyd oruchwylloeth o gytundebau cydweithio mewn sefyllfaoedd ble nad yw Prif Gwnstabiad eu hunain yn gyfrifol yn uniongyrchol am ddarpariaeth y cytundeb gwasanaeth ei hun;
- cael eu hymgyngori â nhw ar benderfyniadau sy'n dod o dan gyfrifoldeb a rheolaeth Comisiynydd neu Brif Gwnstabl arall.
- dangos tystiolaeth o atebolrwydd a thryloywder trefniadau cydweithio i'w cymunedau lleol;
- trafod materion Cymreig â Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu gyrrff priodol eraill.

Atebolrwydd a Llywodraethu:

Bydd y Grŵp Plismona Cymru Gyfan sy'n cynnwys y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throsedd yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio fel y fforwm ar gyfer gweithredu trefniadau cyd oruchwyllo. Yn unol â rhaglen a gytunir arni bydd agenda'r cyfarfod yn cynnwys cyd oruchwyllo. Bydd craffu fel arfer yn dilyn rhaglen strwythuredig ond gallai Comisiynwyr, ar unrhyw adeg, ofyn am gael trafod eitemau ychwanegol. Bydd y rhaglen yn goruchwyllo ac yn craffu ar bob cytundeb cydweithio.

Yn ychwanegol at hyn, bydd y Pennaeth Staff / Prif Weithredwr yn mynychu'r cyfarfod fel y prif gynghorydd. Bydd unigolion perthnasol eraill yn cael eu gwahodd i fynychu pob cyfarfod goruchwyllo. Bydd rhywun yn cymryd cofnodion ym mhob cyfarfod hefyd.

Ni fydd y fforwm yn pleidleisio. Yn hytrach, bydd yn hwyluso cyd graffu trefniadau lleol presennol ac yn galluogi Comisiynwyr a Phrif Gwnstablaid i chwilio am feysydd potensial newydd.

Bydd model haenog ar gyd oruchwylio yn cael ei weithredu, gan felly gynnwys dim ond y Comisiynwyr a'r Prif gwnstablaid hynny sy'n berthnasol i'r cytundeb cydweithio sy'n cael ei graffu arno. Fe ddylai'r cyfarfod felly ddechrau â thrafodaeth am drefniadau sy'n dod o dan fodel pedwar heddlu a dod i ben gyda thrafodaeth sy'n seiliedig ar fodel dau Heddlu. Fe ddylai'r unigolion perthnasol adael y cyfarfod ar yr adegau priodol.

Trefniadau ar gyfer goruchwylio a chraffu:

Yn unol â rhaglen a gytunir arni, fe ddylai'r Grŵp Plismona Cymru Gyfan:

- Gael diweddariadau manwl am yr holl gytundebau cydweithio ar adegau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw (fel y nodir yn Rhaglen Blaengynllunio Gwaith y Grŵp, a fydd yn cael ei gynnal gan flaen Brif Weithredwr/Pennaeth Staff).
- Canolbwyntio ar nifer o drefniadau cydweithio a benderfynir arnynt ymlaen llaw mewn cyfarfodydd penodol (fel y nodir yn Rhaglen Blaengynllunio Gwaith y Grŵp).
- Derbyn adroddiadau eithriadol ar gyfer pob cytundeb cydweithio.

Bydd y craffu a wneir ar gytundebau cydweithio yn cynnwys:

- Cyfraniadau a wneir gan bob Comisiynydd o ran cyllid ac adnoddau.
- Ei ganlyniadau perfformiad.
- Cyfanswm y cyllid a gafwyd (h.y. yn nodi ffynonellau arian a dderbyniwyd oni bai am gan gyrrff plismona lleol).
- Sut mae'r arian yn cael ei ddefnyddio.
- Ei nodau, blaenoriaethau a chynlluniau
- Ei gyllideb a gwariant presennol.
- Sut mae'n bodloni risgiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- Sut ac os yw'n cyfrannu at y Gofyniad Plismona Strategol (gan gynnwys unrhyw fylchau / risgiau a wynebir).
- Adroddiadau sy'n asesu effeithiolrwydd neu effeithlonrwydd y cytundeb / prosiect.
- Datblygiadau / cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

Cyfrifoldebau:

Bydd y cytundeb cydweithio ei hun yn adnabod yr Heddlu y mae'r cyfrifoldeb am gyfeiriad a rheolaeth yn perthyn iddo.

Bydd yn gyfrifoldeb ar bob Comisiynydd i fonitro a chraffu ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd pob cytundeb cydweithio gyda'i Brif Gwnstabl ei hun. Bydd hyn yn cynnwys gwariant y cytundeb cydweithio. Mewn sefyllfaoedd lle mae'r gorwariant arfaethedig yn fwy na'r gyllideb flynyddol a gymeradwyir, dylid cyflwyno hyn i'r Grŵp Plismona Cymru Gyfan er mwyn cael cymeradwyaeth i'r gorwariant neu i geisio camau adferol cyn iddo ddigwydd.

Cyhoeddiadau:

Fe ddylai cofnodion pob cyfarfod cyd oruchwylio fod ar gael drwy wefannau'r Comisiynwyr o fewn 10 diwrnod gwaith i bob cyfarfod gan roi tryloywder i drefniadau llywodraethu. Bydd gwybodaeth gyfyngedig neu sensitif yn cael ei thynnu o'r cyhoeddiad. Gwneir penderfyniadau mewn perthynas â datgan gwybodaeth i'r cyhoedd yn unol â deddfwriaeth.

Bydd y blaen Bennaeth Staff / Prif Weithredwr yn gyfrifol am gasglu a chynnal a chadw cofnodion sy'n berthnasol i'r Bwrdd Plismona Cymru Gyfan. Bydd hyn yn cynnwys casglu agendâu, papurau a chofnodion cyfarfodydd.

Bydd materion a drafodir yn y fforwm sy'n sensitif o ran materion gweithredol, sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol neu sydd â sensitifrwydd masnachol un ai'n cael eu cyhoeddi ar adeg priodol yn y dyfodol neu'n cael eu cadw gan y Blaen Bennaeth Staff /Prif Weithredwr.

Darperir adroddiadau cydweithio gan bob Prif Gwnstabl i'r Comisiynydd perthnasol cyn y cyfarfod.

Sefydlir rhaglen blaengynllunio er mwyn galluogi cynllunio ac adrodd effeithiol. Rhaid i bapurau a gyflwynir i'r fforwm gael eu cyflwyno ar ffurf y templed (Atodiad B).

Mae Adran 23E o Ddeddf yr Heddlu 1996 yn nodi bod angen i drefniadau llywodraethu cytundebau cydweithio gael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r cytundebau eu hunain. Fe ddylai pob Comisiynydd wneud trefniadau i gyhoeddi'r MoDd hwn er mwyn bodloni eu dyletswyddau statudol.

Adolygu:

Bydd y trefniant hwn yn cael ei adolygu gan y Bwrdd Plismona Cymru Gyfan yn flynyddol o leiaf a hynny o ddyddiad ei gychwyn sy'n weithredol o 26 Mawrth 2014.

